



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2015 dccc 2

RHAN 3

COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

Swyddogaethau'r Comisiynydd

21 Argymhellion gan y Comisiynydd

- (1) Wrth ddarparu cyngor neu gymorth i Weinidogion Cymru, caiff y Comisiynydd hefyd wneud argymhellion i'r Gweinidogion ynghylch y nodau llesiant neu'r dangosyddion cenedlaethol.
- (2) Os yw'r Comisiynydd yn gwneud argymhellion o dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r argymhellion hynny.